

Beth sydd ymlaen

*Ebrill-Tachwedd*

# THEATR BRYCHEINIOG 2026

DELWEDD: CRAIG REVEL HORWOOD | MER 17 MEH

www.brycheiniog.co.uk | Swyddfa Docynnau: 01874 611 622
Theatr Brycheiniog, Canal Wharf, Aberhonddu, Powys, LD3 7EW
Rhif elusen 1005327

Theatr Brycheiniog
TheatrBrycheiniog
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# **Croeso**
# Welcome

Yng nghalon Bannau Brycheiniog, ar lan basn camlas hardd Mynwy ac Aberhonddu, mae Theatr Brycheiniog yn ganolfan ddiwylliannol gynnes a chroesawgar. Ochr yn ochr â rhaglen uchelgeisiol o berfformiadau a digwyddiadau proffesiynol a chymunedol, mae'r theatr yn cynnig caffi hamddenol lle gall ymwelwyr ymgasglu, cysylltu a mwynhau'r lleoliad ar lan y dŵr.

Gyda'i chynyrchiadau amrywiol a phoblogaidd mae Theatr Brycheiniog yn denu cynulleidfaoedd rheolaidd o Aberhonddu, de Powys a phob cwr o Gymru a Phrydain, gan ddal i chwarae rhan hanfodol yng nghanol ei chymuned leol.

## Cyfrannu Trwy Neges Destun

Cefnogwch ni a helpwch i gadw Theatr Brycheiniog wrth galon ein cymuned. Gyda'n gilydd, gallwn ddiogelu a meithrin lle sy'n ysbrydoli, yn cysylltu ac yn creu atgofion bythol i bawb.




Rhif elusen 1005327

# Croeso Cynnes gan Sara St George

## Prif Weithredwr



Rwyf wedi cael croeso mor gynnes gan yr artistiaid sy'n perfformio yma a'r cynulleidfaoedd sydd yn ein cefnogi, ac mae wedi bod yn bleser gwirioneddol dod yn rhan o'r lleoliad hyfryd hwn. Wrth gwrs, ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb ein tîm anhygoel; rwyf yn ddiolchgar iawn i'n staff a gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n gweithio'n galed ac y mae eu hangerdd yn sicrhau bod pob perfformiad yn rhedeg yn llyfn. Roeddwn wrth fy modd yn cael dechrau fy swydd wrth i'n system sain newydd gael ei gosod, ac mae eisoes yn gwneud gwahaniaeth trawiadol i'r profiad byw.

Mae'r tymor sydd ar ddechrau yn llawn o ddigwyddiadau arbennig. Un o'r uchafbwyntiau pwysig yw'r unig ddyddiad yng Nghymru ar gyfer taith trwy Brydain Private Peaceful, addasiad trawiadol o nofel Michael Morpurgo, na fyddwch am ei golli.

Rydym hefyd yn falch iawn o barhau ein partneriaeth wych gyda Theatr na nÓg. Byddant yn dod â'u sioe ddifyr, Gwarchod y Gwenyn, gyda pherfformiadau yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n brofiad gwych, hwyliog sy'n procio'r meddwl ac yn berffaith i deuluoedd a'n chwilotwyr iau.

Bydd cerddoriaeth yn hawlio'r llwyfan wrth i ni groesawu Gŵyl Jazz Aberhonddu. Rydym yn falch iawn o groesawu Courtney Pine chwedlonol, y bydd ei jazz bywiog yn creu penwythnos gwirioneddol gofiadwy yma yng nghanol y dref. Os ydych yn hoff o dreftadaeth leol, peidiwch â cholli Brycheiniog Ddramatig: 3000 o Flynyddoed o Theatr yn Aberhonddu. Mae'r arddangosfa barhaol hon ar ein hail lawr yn ddathliad o hanes creadigol cyfoethog ein cymuned.

Yn olaf, rwyf am rannu diolch o galon i'n Cyfeillion a Noddwyr. Mae eich cefnogaeth yn wirioneddol amhrisiadwy. Mae'n caniatáu i ni gyflawni ein rhaglen gymunedol eang, creu cyfleoedd hanfodol i bobl ifanc, a dod â gwaith teithiol proffesiynol eithriadol i'n llwyfan. Os nad ydych wedi ymuno eto, ewch ar-lein neu holwch yn ein Swyddfa Docynnau am ragor o fanylion.

Rwy'n eich gwahodd yn gynnes i ymuno â ni'r tymor hwn i brofi cyffro, creadigrwydd a'r ysbryd cymunedol sy'n gwneud Theatr Brycheiniog yn lle mor arbennig i ni i gyd.

**Sara St George**
Prif Weithredwr






### Take That Experience
Cerddoriaeth Fyw

Wrth i Take That ddathlu 30 mlynedd, mae'r sioe anhygoel hon yn dod ag un o fandiau teyrnged gorau Take That i Aberhonddu. Eich holl hoff ganeuon Take That o'r 90au, gan gynnwys *'Pray', 'Relight My Fire', 'Patience', 'Shine' 'These Days', 'Rule The World'* ac ambell unawd o raglen Robbie Williams. Mae'r Take That Experience yn ail-greu hudoliaeth Take That yn fyw ar lwyfan gyda'u taith 'Greatest Hits'.

| | |
|---|---|
| Iau 16th Ebr | 7.30pm |
| Tocynnau | £28.70 |



### Susie Dent: Word Perfect
Darthithiau

Mae hoff airgarwr Prydain Susie Dent yn ôl gyda chasgliad newydd sbon o ffeithiau a straeon o fyd bendigedig geiriau.

Pan mai'r enw torfol am frain yw 'murder'? Sawl gair Saesneg sydd am fod wedi meddwi? Doniol, craff a phryfoclyd, mae 'Word Perfect' yn llythyr caru i'r iaith fawr drws nesaf.

| | |
|---|---|
| Sat 18th Apr | 2pm |
| Tocynnau | £31.70 |

Mae'r tocynnau yn cynnwys ffi weinyddol o hyd at £1.70 y tocyn.

# Dangosiadau Byw

## Mwynhewch ar sgrin fawr Aberhonddu




### All My Sons

NT Live

Bryan Cranston (Breaking Bad) a Marianne Jean-Baptiste (Hard Truths) yw sêr y cynhyrchiad newydd clodfawr, pum seren, yma o ddrama glasurol Arthur Miller, gan y gweledydd o gyfarwyddwr Ivo Van Hove (A View from the Bridge).

| | |
|---|---|
| Gwe 17 Ebr | 7pm |
| Tocynnau | £19.20 |
| Gostyngiadau | £17.20 |



### The Magic Flute

Royal Ballet & Opera

Mae opera ffantasïol Mozart yn pefrio yng nghynhyrchiad hudolus David McVicar.

| | |
|---|---|
| Maw 21 Ebr | 6.45pm |
| Tocynnau | £19.20 |
| Gostyngiadau | £17.20 |




### Met Opera: Eugene Onegin

Royal Ballet & Opera

Mae'r bariton Igor Golovatenko'n ailymweld â'i rôl fel Onegin gwaraidd sy'n sylweddoli maint ei serch yn rhy hwyr. Dan gyfarwyddyd yr enillydd Gwobr Tony Deborah Warner, dyma 'ddarlleniad hyfryd o fanwl o ramant delynegol Tchaikovsky" (The Telegraph).

| | |
|---|---|
| Maw 5 Mai | 6pm |
| Tocynnau | £19.20 |
| Gostyngiadau | £17.20 |




### Playboy of The Western World

NT Live

Ffilmiwyd yn fyw ar lwyfan y National Theatre, mae Caitríona McLaughlin yn cyfarwyddo'r chwedl dywyll o ddoniol hon sy'n llawn i'r ymylon â chyfrinachau.

| | |
|---|---|
| Iau 4 Meh | 7pm |
| Tocynnau | £19.20 |
| Gostyngiadau | £17.20 |




### Les Liaisons Dangereuses

NT Live

Mae'r enillydd Gwobr BAFTA Lesley Manville (Phantom Thread) yn ymuno ag Aidan Turner (Rivals) mewn llwyfaniad trawiadol newydd o addasiad clodfawr Christopher Hampton o'r nofel glasurol hon ble gall un cam gwag ymysg ystafelloedd sgleiniog yr hynod gyfoethog arwain at ddifancoll.

| | |
|---|---|
| Iau 25 Meh | 7pm |
| Tocynnau | £19.20 |
| Gostyngiadau | £17.20 |





### Pam Ayres

Darlithiau

Bydd y bardd, darlledwr ac awdur Prydeinig nodedig Pam Ayres yn diddanu cynulleidfaoedd yn Theatr B! Gwnaeth Pam nifer o ymddangosiadau ar sioeau teledu hoff gan gynnwys *'The Cotswolds' (Channel 5); 'This Morning', 'Alan Titchmarsh, 'Countdown'* a *'Would I Lie To You?'* B'ydd hi'n rhannu'r hanner canrif o straeon sydd ganddi ym myd adloniant yn ogystal â mewnwelediadau difyr i'w llyfr barddoniaeth, 'Doggedly Onwards – A Life in Poems.'

| | |
|---|---|
| Gwe 8th Mai | 7.30pm |
| Tocynnau | £31.70 |




### Once in a Lifetime

Cerddoriaeth Fyw

Paratowch i fynd yn ôl i ganol yr 80au, pan ailddiffiniwyd y dirwedd sain gan artistiaid oedd yn torri tir newydd. Anghofiwch yr ysgwyddau mawr a'r gwalltiau amheus. Rydyn ni'n sôn am ddoniau amrwd ac athrylith ddiamau bandiau ac artistiaid fel U2, The Police, Tears for Fears, Toto, Prince, Kate Bush, Bruce Springsteen, Hall & Oates, The Smiths, a llawer mwy.

Dyma eich cyfle i brofi'r gorau o'r 80au – grymus, arloesol a, heb os, cŵl!


| | |
|---|---|
| Sul 10 Mai | 7.30pm |
| Tocynnau | £28.70 |

Mae'r tocynnau yn cynnwys ffi weinyddol o hyd at £1.70 y tocyn.

## The Johnny Cash Roadshow 20th Anniversary
### Cerddoriaeth Fyw

Camwch i fyd amrwd a garw cyfnod carchardai Johnny Cash gyda'r sioe drydanol hon. Ar set llwyfan yn arddull Carchar Folsom, dyma ddod â pherfformiadau mwyaf eiconig Cash yn fyw. Byddwch yn barod i gael eich hudo wrth i glasuron bytholwyrdd fel *'Walk the Line', 'Ring of Fire', 'Jackson', 'Orange Blossom Special'*, ac *'A Boy Named Sue'* ddod yn fyw.

| | |
|---|---|
| Sad 16 Mai | 7.30pm |
| Tocynnau | £30.20 |




## Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC "Tymhorau a Straeon"
### Cerddoriaeth Glasurol

Er nad yw'n cael ei pherfformio mor fynych â rhai o'i symffonïau eraill, mae Ail Symffoni Beethoven yn gipolwg ar Beethoven ar ei fwyaf doniol. Daw anwadalwch a chwarae ynghyd â ffrwydrad llachar o lawenydd yn y symffoni fywiog o wrthgyferbyniol hon.

| | |
|---|---|
| Gwe 29 Mai | 7.30pm |
| Tocynnau | o £9.70 ymlaen |
| Adeilad | Eglwys Gadeiriol Aberhonddu |



## Theatr Fach Aberhonddu
### Theatr & Sioeau Cerdd

Byddwch yn barod am ffrwydrad llachar o liw, cerddoriaeth ac ynni ifanc wrth i Theatr Fach Aberhonddu gyflwyno cynhyrchiad eu grŵp ieuenctid o Joseph and the Amazing Technicolour Dreamcoat!

Mae'r cwmni theatr cymunedol a enwebwyd am wobrau'n dod â chast rhyfeddol o dros 60 perfformiwr ifanc dawnus rhwng 8 ac 19 oed ynghyd ar gyfer y sioe fywiog hon. Yn llawn o ganeuon bythgofiadwy, coreograffi egnïol a digon o hiwmor, mae'r ffefryn hwn i'r teulu oll yn addo 90 munud o adloniant i'ch llenwi â theimladau braf!

| | |
|---|---|
| Gwe 29 Mai | 7pm |
| Sad 30 Mai | 2pm & 7pm |
| Sul 31 Mai | 12pm & 4pm |
| Tocynnau | £19.70 |




## Craig Revel Horwood
### Darlithiau & Adloniant

Ac yntau'n adnabyddus fel un o'r beirniaid a fu ar 'Strictly Come Dancing' am yr amser hiraf, cafodd Craig Revel Horwood yrfa enfawr, gan weithio ar rai o sioeau cerdd mwyaf Prydain, fel coreograffydd a chyfarwyddwr nodedig, ac awdur arobryn.

Mae Craig yn ganwr rhagorol hefyd, ac i ddathlu rhyddhau'i albwm unigol cyntaf – a'i lyfr newydd, Revelations – bydd yn datgelu'i ddoniau cudd ei hunan yn ystod noson Ffab-iw-lys o ganeuon mawr, celwydd golau a glamor.Gallwch ddisgwyl dawnsio, straeon o Strictly, caneuon, digon o chwerthin – ac arddangosfa goginio annisgwyl hefyd!

| | |
|---|---|
| Mer 17 Meh | 7.30pm |
| Tocynnau Arferol | £35.70 |
| VIP | £50.70 |
| VIP Meet & Greet | £81.70 |






Mae'r tocynnau yn cynnwys ffi weinyddol o hyd at £1.70 y tocyn.

## Mid Wales Dance Academy Junior Showcase
Dawns

Am y tro cyntaf erioed, bydd Academi Ddawns Canolbarth Cymru yn arddangos doniau'u dawnswyr iau. Dan ysbrydoliaeth chwedlau Beatrix Potter, gallwch wylio'r dawnswyr bale dawnus hyn yn dod â chymeriadau a straeon cyfarwydd yn fyw, law yn llaw â rwtîns tap bywiog a dawns stryd egnïol sy'n dangos gymaint y gall y perfformwyr bach hyn ei gyflawni.

| | |
|---|---|
| Sad/Sul 6-7 Meh | 4pm/11am |
| Tocynnau | £19.20 |
| Gostyngiadau | £17.20 |




## Showcase Seren Stars
Dawns

Bellach yn ei 12fed flwyddyn, a'r olaf, mae myfyrwyr o Grŵp Colegau NPTC Bannau Brycheiniog ac Ysgol Penmaes wedi cydweithio mewn prosiect theatrig i gynhyrchu perfformiad llachar ar themâu eu hoff gerddoriaeth, caneuon a dawns.

Achubodd dysgwyr ar y cyfle cyffrous i ddysgu am berfformio ar lwyfan a gweithio yn Theatr Brycheiniog ar y prosiect hwn, felly dewch draw i weld y canlyniadau.

| | |
|---|---|
| Gwe 12 Meh | 1.15pm |
| Tocynnau | £9.20 |
| Gostyngiadau | £8.20 |




## Lighthouse Theatre - White Lies
Theatr

Y perfformiad cyntaf yng Nghymru o White Lies gan Robert Shearman. Mae Claire a Simon wedi bod yn briod ers blynyddoedd. Mae mwy i fywyd na duck à l'orange ... fel Roger. Ffrind dychmygol i ychwanegu ychydig o sbeis at y berthynas ... gyda chanlyniadau annisgwyl. Mae'r comedi arsylwadol finiog hon wedi'i hysgrifennu gan y sgriptiwr arobryn, Robert Shearman, un o sgriptwyr Doctor Who, ac mae'n delio â materion cyfoes, o hunaniaeth i unigrwydd, mewn modd tosturiol, cefnogol a doniol.

| | |
|---|---|
| Iau 18 Meh | 7.30pm |
| Tocynnau | £15.70 |




## Oh What A Night!
Cerddoriaeth Fyw

Mae Oh What A Night yn mynd â chi'n ôl drwy amser ar daith gerddorol drwy yrfa anhygoel Frankie Valli a'r Four Seasons.

Byddwch yn barod i gyd-ganu i Sherry, *'Let's Hang On', 'Big Girls Don't Cry', 'Can't Take My Eyes Off You', 'My Eyes Adored You', 'December 63 (Oh What A Night)', 'Bye Bye Baby', 'Who Loves You' a llawer iawn mwy. Fyddwch chi'n methu* ag atal eich traed rhag taro'r llawr i gyd-fynd â'r clasuron cofiadwy hyn.

| | |
|---|---|
| Sad 27 Meh | 7.30pm |
| Tocynnau | £29.20 |




## Theatre na nÓg - Gwarchod y Gwenyn
Teuluoedd (Oedran 4+)

'We Need Bees' gan Katherine Chandler sy'n adrodd stori'r hyn sy'n digwydd wrth i'r gwanwyn gyrraedd a'r holl fywyd gwyllt anhygoel yn deffro ar ôl gaeaf hir ac oer, gan gynnwys ein ffrind Bron y wenynen fêl. Ymunwch â hi a'i ffrindiau prysur wrth iddi rannu ei hanturiaethau cyffrous yn peillio byd rhyfeddol y blodau a'r planhigion. Rydym yn cyfarfod hen ffrind Bron, Bertie, ar waelod cwch gwenyn prysur, yn treulio ei ddyddiau yn peillio hen afalau diflas.

| | |
|---|---|
| Sad 4 Gor | 11am & 1.30pm |
| Tocynnau | £11.70 |




## Aloud Charity
Cerddoriaeth Fyw

Ymunwch â sêr y llwyfan a'r West End wrth iddyn nhw ddod ynghyd i godi arian ar gyfer Elusen Aloud mewn noson fythgofiadwy o ffefrynnau'r sioeau cerdd. Gyda Tom Hier (Joseph, Miss Saigon, Welsh of the West End) a Steffan Hughes (Welsh of the West End, Only Men Aloud), ar y cyd â doniau corawl 'Only Boys Aloud' ac 'Only Voices Aloud', mae hwn yn addo bod yn berfformiad gwirioneddol arbennig ac unigryw. Mwynhewch ganeuon eiconig o Wicked, Les Misérables, Miss Saigon, Six, a llawer mwy.

| | |
|---|---|
| Sad 4 Gor | 7.30pm |
| Tocynnau | £28.70 |
| Gostyngiadau | £26.70 |






Mae'r tocynnau yn cynnwys ffi weinyddol o hyd at £1.70 y tocyn.

## Mid Wales Dance Academy Senior Showcase

### Dawns

Bydd 65 myfyriwr dawns dawnus lleol yn perfformio fersiwn newydd o Jack and the Beanstalk gyda thaflunio symudol a ffon ffa sy'n tyfu! Mae'r cwmni'n gweithio gyda Maestro Music UK ar fale newydd gyda'r cyfansoddwr arobryn Daryl Griffith (sydd wedi gweithio gyda Matthew Bourne a Bale Dinas Llundain). Dyma eich cyfle i weld talentau'r genhedlaeth nesaf yn cael eu hamlygu, a chael cip rhag blaen cyn cynnal perfformiad cyntaf y byd o'r fale hon yma ym mis Ebrill 2027!

| | |
|---|---|
| Sad 11/Sul 12 Gor | 6pm/11am |
| Tocynnau | £19.70 |
| Gostyngiadau | £17.70 |




## Brecon Choir Festival. Made in Wales: A Choral Celebration

### Cerddoriaeth Fyw

Daw enillwyr yr Eisteddfod Genedlaethol Côr Llundain ynghyd â'r ffefrynnau lleol Côr Meibion Aberhonddu a'r Fro ar gyfer cyngerdd gala cyffrous i ddathlu'r traddodiad corawl Cymreig fel rhan o Ŵyl Gorawl Aberhonddu.Dewch i brofi goreuon y caneuon Cymreig gyda'r ensemble lleisiol cymysg, a berfformiodd yn ddiweddar ar albwm clodfawr gyda'r Gerddorfa Philarmonig Frenhinol, 'Welsh Music for Strings'. Gwrandewch ar enillydd Gwobr Canwr Ifanc BCF 2026 mewn noson o rym ac angerdd diguro.

| | |
|---|---|
| Gwe 17 Gor | 7.30pm |
| Tocynnau | £23.70 |




## Jay & Joss: It's Not a Game

### Adloniant

Syfrdanwyd beirniaid 'Britain's Got Talent' gan Jay a Joss. Nawr mae'r lledrithwyr arobryn yn ôl gyda 'It's Not a Game' – sioe newydd ble does dim byd yn union fel yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Gyda styntiau syfrdanol, golygfeydd i ddwyn eich gwynt ac enydau sy'n herio'r hyn a gredwch, mae realiti a lledrith ar fin toddi'n un. Sioe wych i'r teulu yn ystod gwyliau'r haf.

| | |
|---|---|
| Iau 30 Gor | 7.30pm |
| Tocynnau Teulu | £66.80 |
| Tocynnau | £29.70 |
| Gostyngiadau | £25.70 |






## LAN

### Digwyddiad Hapchwarae

Mae'r tîm o SkyNet Wales gyda chefnogaeth gan fusnesau technoleg lleol yn dychwelyd i Theatr Brycheiniog y mis Awst hwn, ar ôl gwerthu pob tocyn y llynedd gyda dros hanner y rhai fu yno yn ymwelwyr rhyngwladol, maen nhw unwaith eto yn edrych ymlaen at groesawu gweithwyr proffesiynol ym myd technoleg a'r dilynwyr brwd o gwmpas y byd i Aberhonddu ar gyfer yr hyn a ddywedir fydd y digwyddiad mwyaf a'r gorau eto.

| | |
|---|---|
| Iau - Sul, 20 - 23 Aws | |
| Tocynnau | £29 |




## Bugsy Malone: The Westenders

### Theatr Cerdd

Drama gan Alan Parker. Geiriau a Cherddoriaeth gan Paul Williams. Drwy drefniant â Faber Music Ltd, ar ran Warner/Chappel Music Ltd. Mae'r Westenders yn cyflwyno Bugsy Malone gan Alan Parker. Dewch bobl - mae'r Westenders yn rholio'r carped coch allan ar gyfer ein sioe gerdd gyntaf un i gael ei harwain gan y sêr ifanc, y cyfan yn 18 ac iau! Gallwch ddisgwyl gynnau llanast, llinellau bachog, cerddoriaeth fywiog, a digon o hud i lenwi 'speakeasy' Fat Sam ddwywaith a mwy. Mae'r sêr newydd yma yn barod i ddisgleirio. Felly tynnwch y llwch oddi ar eich fedoras, a rhoi polish ar yr esgidiau dau liw. Bydd y tocynnau ar werth yn fuan iawn.

| | |
|---|---|
| Iau & Gwe 9-10 Medi | 7pm |
| Sad 12 Medi | 12pm & 5pm |
| Tocynnau | £21.70 |





## And finally...Phil Collins

### Cerddoriaeth Fyw

Camwch yn ôl drwy amser i brofi hudoliaeth a baledi grymus Phil Collins yn y dathliad gwefreiddiol hwn o'r dyn ei hun, Phil Collins.

Gyda band 9 darn egniol yn cefnogi, dau set o ddrymiau taranllyd, a'r adran bres anhygoel '*And Finally Horns*', dewch i ail-fyw eiliadau roc eiconig yr 80au sy'n cynnwys "*In The Air Tonight*" and "*Sussudio*."

| | |
|---|---|
| Gwe 25 Medi | 7.30pm |
| Tocynnau | £27.70 |
| Gostyngiadau | £25.70 |



## Lleoliad Partner Swyddogol

**Dewch i brofi jazz o safon fyd-eang yng nghanol Cymru, gydag artistiaid chwedlonol, sêr ar eu prifiant, a pherfformiadau bythgofiadwy ar draws lleoliadau eiconig Aberhonddu: 6-9 Awst.**

Arlwy llawn yma breconjazzfestival2026.co.uk/

| Mwy i'w weld yma: |
|---|
| The Muse |
| Brecon Guildhall |
| The Bulwark Stage |



## Courtney Pine
Iau 6 Aws

I ddathlu pedair degawd ar flaen y gad ym myd jazz Prydeinig, daw Courtney Pine yn ôl i'r llwyfan gydag Out Of the Ghetto: A Modern Day Jazz Story – taith ôl-dremiol rymus i gyd-fynd â rhyddhau'i gasgliad newydd sy'n edrych dros ei yrfa gyfan ar 'Universal Records'.

| | |
|---|---|
| Iau 6 Aws | 8pm |
| Tocynnau | £36.70 |
| Gostyngiadau | £19.20 |

# Brecon Jazz Festival



## Jacqui Dankworth
Sul 9 Aws

Ymunir â rhestr yn llawn o sêr y byd cerddoriaeth gan y lleisydd jazz mawr ei chlod Jacqui Dankworth yng Ngŵyl Jazz Aberhonddu.

A hithau wedi hen ennill ei phlwyf fel un o brif leiswyr y wlad, mae cyngherddau byw Jacqui'n arddangos ei hyblygrwydd unigryw a'i meistrolaeth ddiymdrech dros ystod eang o arddulliau, gan dynnu ar ei gwreiddiau mewn jazz, ond hefyd gwerin, soul a'r blŵs, yn ogystal â'i gallu rhyfeddol fel cyfansoddwr cerddoriaeth a geiriau.

| | |
|---|---|
| Sul 9 Aws | 8pm |
| Tocynnau | £36.70 |
| Gostyngiadau* | £19.20 |

# 6-9 Awst 2026



### Tomos Williams: Blodeugerdd The Great Welsh Songbook
Cerddoriaeth Fyw

Mae prosiect newydd y trwmpedwr Tomos Williams, sy'n ailddychmygu cerddoriaeth o'r traddodiad gwerin yng Nghymru, dan yr enw 'Blodeugerdd/The Great Welsh Songbook', yn cynnwys cerddorion jazz rhagorol o Gymru.

| | |
|---|---|
| Gwe 7 Aws | 4pm |
| Tocynnau | £31.70 |
| Gostyngiadau* | £16.70 |



### Liane Carrol
Cerddoriaeth Fyw

Disgrifiwyd hi gan y beirniaid fel "un o'r pianyddion mwyaf hyblyg o ran arddull sydd ar gael, gyda llais canu bendigedig, ychydig yn floesg".

Dave Gelly, The Observer

"...perfformiwr grymus, â 'soul' yn gyforiog ynddi, sy'n dod â hoen sy'n ymdebygu i `Ella Fitzgerald yn ei gwaith byrfyfyr ac uniongyrchedd emosiynol mewn baledau."

John Fordham, The Guardian

| | |
|---|---|
| Gwe 7 Aws | 8pm |
| Tocynnau | £31.70 |
| Gostyngiadau* | £16.70 |



### Will Barnes Quartet
Cerddoriaeth Fyw

Yn dilyn eu halbwm gafodd glod mawr gan y beirniaid a thaith lwyddiannus o gwmpas Prydain, mae'r Will Barnes Quartet yn dychwelyd i Ŵyl Jazz Aberhonddu gyda sioe glyweled ymdrochol sy'n cynnwys arddangosfeydd golau llifeiriol byw gan yr artist Erin Hughes. Gallwch ddisgwyl jazz cyfoes, sinematig sy'n archwilio golau tirwedd a mytholeg Celtaidd. Gwledd i'r synhwyrau.

| | |
|---|---|
| Sad 8 Aws | 1.30pm |
| Tocynnau | £31.70 |
| Gostyngiadau* | £16.70 |



### Orphy Robinson: Orphy's P-Funk Collective
Cerddoriaeth Fyw

Mae Orphy's P-Funk Collective yn dathlu'r cwlwm cyfnewidiol o gerddorion a arweiniwyd gan George Clinton dan enw American Parliament – Funkadelic ers y 1960au. Gallwch ddisgwyl llinellau bas ffynci, riffiau gitâr bachog ac adrannau pres grymus.

| | |
|---|---|
| Sad 8 Aws | 4.30pm |
| Tocynnau | £31.70 |
| Gostyngiadau* | £16.70 |



### Francesca Tandoi and Emma Smith
Cerddoriaeth Fyw

Canmolwyd y pianydd a'r canwr jazz Eidalaidd Francesca Tandoi gan y beirniaid a'i chyfoedion fel seren jazz ar ei phrifiant. Mae'r gantores jazz arobryn Emma Smith wedi teithio'r byd a recordio gyda Robbie Williams, Michael Bublé a Seal ymysg eraill. Enwyd Emma ym Mhrydain fel lleisydd gorau 2024 yn y Gwobrau Jazz Seneddol.

| | |
|---|---|
| Sad 8 Aws | 8pm |
| Tocynnau | £31.70 |
| Gostyngiadau* | £16.70 |



### Ferg's Imaginary Big Band
Cerddoriaeth Fyw

Mae Ferg's Imaginary Big Band, sy'n rhan o sin gerddoriaeth annibynnol jazz ac arbrofol Leeds, wedi braenaru'r tir gyda brwdfrydedd diddiwedd ac ethos pync, gan ennill enw iddyn nhw'u hunain am berfformiadau byw ffrwydrol sy'n llusgo cerddoriaeth 'big band' gan weiddi a sgrechian i'r 21ain ganrif a thu hwnt.

| | |
|---|---|
| Sul 9 Aws | 4pm |
| Tocynnau | £31.70 |
| Gostyngiadau* | £16.70 |

*Gostyngiadau ar gael i Dan18 a myfyrwyr

Mae'r tocynnau yn cynnwys ffi weinyddol o hyd at £1.70 y tocyn.




## BANFF Film Festival: Blue Programme
Fflimiau a Darlithiau

Ar ôl dwy flynedd o werthu pob tocyn, mae Gŵyl Ffilmiau BANFF yn ôl yn yr hydref eleni gyda'r Rhaglen Ffilmiau Glas fentrus – casgliad newydd sbon o ffilmiau byrion a fydd yn eich dwyn i gorneli gwylltaf y blaned.

Anturiaethau eithafol. Cymeriadau heb eu dofi. Sinematograffi hudol.

Gwyliwch waith gwneuthurwyr ffilmiau antur gorau'r byd, ynghyd â phobl sy'n crefu'r cyffro eithaf, yn dringo, sgïo, rhwyfo a reidio i fannau na fydd y rhan fwyaf ohonom byth yn eu gweld. Gwobrau rhad ac am ddim drwy gydol y nos. Dyma ddigwyddiad na ddylid mo'i golli gan ŵyl fynydda fwyaf nodedig y byd – yn sicr o danio eich angerdd dros antur, gwneud a theithio.

| | |
|---|---|
| Iau 1 Hyd | 7.30pm |
| Tocynnau | £19.20 |
| Gostyngiadau | £17.20 |




## Private Peaceful
Theatr

Gan Michae Morpurgo (War Horse) daw stori fythgofiadwy Tommo Peaceful.
Ar y noson cyn y frwydr, mae Tommo'n edrych yn ôl dros ddigwyddiadau a ffurfiodd ei fywyd: cynhesrwydd ei deulu, diniweidrwydd cariad cyntaf, a'r rhwymyn dwfn rhyngddo ef a'i frawd sy'n ei gario drwy erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn llawn dop o egni a grym oesol, y perfformiad unigol deniadol hwn yn Aberhonddu yw'r unig ddyddiad yng Nghymru yn ystod y daith o gwmpas Prydain.

Twymgalon a thorcalonnus, mae Private Peaceful yn ddrama deuluol deimladwy ac ar yr un pryd yn atgof grymus o bris dynol rhyfel.
(Oedran 8+)

| | |
|---|---|
| Iau 8 Hyd | 7pm |
| Gwe 9 Hyd | 1.30pm |
| Tocynnau | Prisiau o £21.20 |
| Gostyngiadau | Prisiau o £19.20 |




## Fleetwood Shack
Cerddoriaeth Fwy

Byddwch yn barod i gael eich cipio ar daith gerddorol eithriadol wrth i FLEETWOOD SHACK gyflwyno perfformiad anhygoel sy'n cynnwys repertoire trawiadol o oreuon mwyaf a hoff Fleetwood Mac o'r anthem "*Don't Stop*" i'r hudol "*Go Your Own Way,*" yr heintus "*Little Lies*," y deniadol "*Everywhere*," yr atgofus "*Landslide*," y grymus "*The Chain*," a llawer iawn mwy, mae'u sioe'n addo eich boddi mewn profiad deniadol ac atgofus

| | |
|---|---|
| Iau 15 Hyd | 7.30pm |
| Tocynnau | £25.70 |
| Gostyngiadau | £23.70 |




## Legends of American Country
Cerddoriaeth Fyw

Dyma ddod â Nashville i Aberhonddu yn y daith hon drwy oes aur canu gwlad. Hawlir mai dyma'r Sioe Deyrnged Canu Gwlad Orau, rydyn ni'n disgwyl teimlo dirgryniadau'r esgidiau cowboi yn Theatr B!

Cofleidiwch berfformiadau gan Dolly Parton, Johnny Cash, Willie Nelson, Tammy Wynette, Kenny Rogers, Hank Williams, Garth Brooks, Shania Twain, Alan Jackson, Luke Combs, a llawer mwy.

| | |
|---|---|
| Llu 26 Hyd | 7.30pm |
| Tocynnau | £28.70 |



Mae'r tocynnau yn cynnwys ffi weinyddol o hyd at £1.70 y tocyn.

## The Makings of a Murderer: The Undercover Detective
Darlithiau

Ymunwch â Peter Bleksley, un o'r rhai wnaeth sylfaenu uned gudd 'Scotland Yard' ac a fu'n amlwg ar 'Hunted' 'Channel 4', wrth iddo ddatgelu agweddau tywyllaf a mwyaf peryglus ei yrfa. O ddod yn rhan o gangiau troseddol i oroesi cynllwyn i'w ladd a'i gorfododd i ymuno â chynllun diogelu tystion, mae Peter yn rhannu storïau dychrynllyd am ei fywyd peryglus fel un o'r heddlu cudd. Byddwch yn barod am daith fythgofiadwy i feddwl ditectif, byd llofrudd, a'r llinell fain sy'n eu gwahanu.

| | |
|---|---|
| Gwe 23 Hyd | 7.30pm |
| Tocynnau | £33.70 |




## John Lydon
Darlithiau

Eich cyfle i gwrdd â'r cymeriad chwedlonol a daniodd chwyldro diwylliannol. Fe wnaeth John Lydon, neu Johnny Rotten o fandiau'r 'Sex Pistols' a 'Public Image Ltd' (PiL) achosi daeargryn gwleidyddol yn y 70au a barodd i gerddoriaeth gael ei thrawsnewid. Wrth iddo lansio'i lyfr newydd, 'I Could Be. Wrong, I Could Be Right', bydd John Lydon yn siarad am y modd y mae e'n gweld bywyd, ynghyd â'i yrfa unigryw ac eithriadol, a chewch gyfle i holi cwestiynau iddo mewn sesiwn agos-atoch ynn Aberhonddu.

| | |
|---|---|
| Iau 5 Tac | 7.30pm |
| Tocynnau Arferol | £36.70 |
| VIP | £51.70 |
| VIP Meet & Greet | £86.70 |



## Welsh of the West End
Sioeau Cerdd

Gyda thros 20 miliwn o ymweliadau ar lein, mae Welsh of the West End wedi troi'n rhyfeddod feiral. Gan ddiddanu cynulleidfaoedd â'u fersiynau gafaelgar o glasuron y sioeau cerdd, maen nhw wedi perfformio mewn lleoliadau eiconig fel Neuadd Frenhinol Albert, a'r Paladium Llundain, a chyffroi cynulleidfaoedd ar draws y byd drwy gyrraedd rowndiau cynderfynol byw rhaglen ITV 'Britain's Got Talent'.

| | |
|---|---|
| Gwe 4 Rha | 7.30pm |
| Tocynnau | £34.20 |





# Yn dod yn fuan...
## Byddwch yn barod!

## Gŵyl Baroque Aberhonddu

Bydd Gŵyl Baroque Aberhonddu 2026 (16-19 Hydref) yn dathlu cerddoriaeth JS Bach, John Dowland (gan nodi 400fed pen-blwydd ei farwolaeth), Telemann, CPE Bach a Boismortier ymhlith eraill. Mae'r artistiaid fydd yn ymuno â Rachel Podger a Baroque Aberhonddu yn cynnwys y chwaraeydd recorder Lucie Horsh, chwaraewyr harpsicord Kris Bezuidenhout a Marcin Świątkiewicz, y chwaraewr viola da gamba Mélisande Corriveau, The English Cornett & Sackbut Ensemble, Fretwork, Ian Bostridge a'r awdur, Horatio Clare. Bydd cyfres o sgyrsiau, taith drefol a gosber arbennig yr ŵyl yn cwblhau rhaglen y penwythnos.

## Chuckl. Comedy Club

Chuckl. THE UK'S PREMIER COMEDY CLUB

**Cadwch y dyddiad! Dydd Sul 13 Medi.** Yn dilyn noson pan werthwyd pob tocyn ym mis Mawrth, bydd noson gomedi Chuckl. yn cyhoeddi eu noson ym mis Medi yn Theatr Brycheiniog yn fuan iawn.

## A Mwy i ddod!





THEATR BRYCHEINIOG

**Delweddau: Brycheiniog Ddramatig: 3000 o Flynyddoedd o Theatr yn Aberhonddu. Ar Agor Nawr. Gweler tudalen 22.**

# Cyfeillion a Noddwyr

## Cefnogwch Ddiwylliant yng Nghanolbarth Cymru

Mae Theatr Brycheiniog yn fwy na llwyfan. Mae'n fan ymgasglu, yn hyb creadigol, ac yn nodwedd ddiwylliannol. Fel elusen gofrestredig, rydyn ni'n dibynnu ar haelioni ein cefnogwyr i gadw ein drysau ar agor, ein prosiectau cymunedol yn ffynnu, a pherfformiadau o safon ryngwladol ar ein llwyfan.

Drwy ymuno â ni, dydych chi ddim yn prynu aelodaeth yn unig, rydych chi'n sicrhau fod diwylliant yn parhau i ffynnu yng nghanolbarth Cymru.

### Pam fod eich cefnogaeth chi'n cyfri

Mae pob cyfraniad yn mynd yn uniongyrchol i ariannu ein cenhadaeth i ddod â'r celfyddydau'n fyw. Mae eich cefnogaeth yn ein helpu ni i:

- Cynnal cynyrchiadau o safon ryngwladol yma yn Aberhonddu
- Darparu cartref i ddoniau lleol a grwpiau cymunedol
- Gwarchod ein lleoliad unigryw ar lan y gamlas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Dewiswch eich Lefel o Gefnogi

P'un ai ydych chi eisiau bod yn nes at y cyffro, neu ddarparu'r arian hanfodol sy'n ein galluogi i ddal i befrio, mae lle i chi yn ein cymuned.

- Cyfeillion: Cefnogi ar lefel Cribyn, Corn Du, neu Pen y Fan
- Noddwyr: Ymunwch fel Noddwr Seren ar gyfer ein lefel mwyaf effeithiol o gefnogaeth


### Gall eich Rhodd fynd ymhellach

Fel elusen gofrestredig, gallwn hawlio Rhodd Cymorth ar ran o'ch cyfraniad. Mae hyn yn golygu y gallwn ni dderbyn 25c ychwanegol ar bob £1 a rowch chi i ni oddi wrth y llywodraeth heb ddim cost ychwanegol i chi.

Mae'n ffordd syml o gynyddu effaith eich cefnogaeth 25% ar amrantiad.

DEWCH YN GYFAILL NEU NODDWR

SGANIWCH i ddysgu mwy




# Dosbarthiadau

## Darganfod beth sy'ndigwydd oddi ar y llwyfan

**Babi B!**
Mer 11am-11:30am

Babi B! yw grŵp gweithgaredd rhiant a phlentyn Theatr B!, sy'n cynnig rhyfeddod y theatr o oedran ifanc. Mae Babi B! yn hwyl, yn rhyngweithiol ac yn gynhwysol, gyda chaneuon a rhigymau traddodiadol i ymuno ynddyn nhw, stori i ddiddanu a digon o gyfleoedd i gwrdd ag eraill a chymdeithasu.

Cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 01874 611 622 os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol.

Digwyddiad rhad ac am ddim â thocynnau (rhaid archebu), gweler y wefan am fanylion telerau.

**Band cyngerdd tref Aberhonddu**
Llu 7pm - 9pm

Band Cyngerdd Tref Aberhonddu Croeso i chwaraewyr o bob gallu, o ddysgwyr ifanc i'r rheiny sy'n dychwelyd at gerddoriaeth ar ôl cael seibiant. Byddwn ni'n chwarae mewn cyngherddau dan do ac awyr agored drwy gydol y flwyddyn.

Cysylltwch â Dave Jones ar 07779 390 954 neu e-bostiwch conductor

btcb@aol.com
www.brecontownband.com



**Pilates Based Back Care**
Llu 10.30 - 11.30am & Mer 5.45 - 6.45pm

Cysylltwch â Katy Sinnadurai
01874 625992 / 07807 851 970
neu katy.sinna@btinternet.com

**Mid Wales Dance Academy**
Sawl diwrnod

Theatr B! yw prif leoliad Academi Ddawns Canolbarth Cymru, ysgol ddawns fawr breifat â thros 300 o ddisgyblion, o 3 oed i oedolion. Maen nhw hefyd yn cynnig ystod o ddosbarthiadau gan gynnwys bale a tap, hiphop a stryd, a chynigir hefyd arholiadau gyda'r Royal Academy Of Dance, a'r International Dance Teachers Association.

For further information please contact
juniors@mwda.co.uk & seniors@mwda.co.uk

**Côr Uplift**
Maw 12 - 1.30pm | £6 / 5
+75c Ffi Archebu. y archeb

Dan arweiniad Tanya Walker: Arweinydd Côr Alive & Kicking a Hyfforddwr Llais
Mynnwch saib o'ch bywyd neu waith amser cinio ddydd Mawrth a rhowch fesur iachusol o leisiant i chi eich hun drwy ganu!

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Tanya Walker: 7723 016837 / tanyawalkermusic@hotmail.com

**Pilates Based Body Conditioning**
Llu 11.45am - 12:45pm

Cysylltwch â Katy Sinnadurai
01874 625992 / 07807 851 970
neu katy.sinna@btinternet.com



**Celf yn y Bar**
Bob dydd

Arddangosfa o waith celf sy'n cael ei newid yn rheolaidd gan artistiaid a gweithwyr creadigol o'r ardal leol, ar gael i'w prynu.

Ewch i'n gwefan i ddysgu sut allwch chi arddangos eich gwaith gyda ni.
www.brycheiniog.co.uk

**u3a**
Iau 10am - 4pm

www.u3asites.uk
Cysylltwch os gwelwch yn dda John Tyler
johntyler9780@gmail.com

**Tai Chi Buddies**
Maw 10 - 10:45am
Maw 2.45 - 3:45pm

Cysylltwch os gwelwch yn dda Andy Marshall
andrewllynfi@hotmail.co.uk

# Bwyd & Diod

**Mae Caffi Theatr Brycheiniog yn lle bywiog a chroesawgar, sy'n cynnig dewis hyfryd o fwyd a diod ar gyfer cynulleidfaoedd ein theatr, aelodau'r gymuned, twristiaid, ymwelwyr a digwyddiadau a archebwyd sydd ag anghenion arlwyo hefyd. Ffynnonellir ein cynhwysion o safon o'r ardal leol ble bo'n bosib, a'u paratoi yn ein hadeilad gan dîm anhygoel ein cegin.**

Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol ac yn y llyfrynnau yn y lleoliad am nosweithiau tapas a swper. Rydyn ni hefyd yn ehangu'r dewis o gyflenwyr lleol ar gyfer y bariau.



### Brecwast
9-11.30am

### Cinio
12 - 2.30pm
(3.30pm yn Haf)
Llu- Sul

### Bwydlen Gyda'r Hwyr
Yn cael ei gweini ar nosweithiau sioeau a digwyddiadau arbennig

### Platiau Antipasti
Ar gael i'w harchebu ymlaen llaw

# Brycheiniog Ddramatig:
## 3000 mlynedd o Theatr yn Aberhonddu

Ers dros dair mil o flynyddoedd, mae pobl yn y cilcyn hwn o Gymru wedi dod ynghyd i berfformio, gwrando, chwerthin a theimlo. Amser maith cyn i Theatr Brycheiniog ddod i fodolaeth, roedd cerddoriaeth, barddoniaeth, defod a stori, yn cael eu rhannu ymysg pobl o genhedlaeth i genhedlaeth.

Mae'r traddodiad yn fyw heddiw. A'r arddangosfa hon yw eich gwahoddiad i mewn iddo.

Camwch i mewn ac ymgollwch mewn 3,000 o flynyddoedd o berfformio, o wreiddiau Celtaidd i lwyfannau Sioraidd, a'r menywod eithriadol, gan gynnwys yr actores fyd-enwog Sarah Siddons, a ffurfiodd y cyfan.

**Lefel 2**

**Oriel**
Arddangosfa Barhaol

**Addas ar gyfer pawb 0 – 100+ oed**

Mae'r wybodaeth a geir yn y llawlyfr hwn yn gywir adeg mynd i'r wasg. Mae Theatr Brycheiniog yn cadw'r hawl i wneud newidiadau os oes angen. I weld telerau ac amodau llawn, edrychwch ar ein gwefan os gwelwch yn dda.



### SWYDDFA DOCYNNAU
Swyddfa Docynnau: Llun–Sad, 10am–3pm, ac ar agor awr cyn dechrau perfformiadau (gan gynnwys ar y Sul). Gellir archebu tocynnau ar lein bob amser 24/7 ar www.brycheiniog.co.uk.

### FFI ARCHEBU
Cynhwysir ffi archebu o hyd at £1.70 ymhob pris a hysbysebir, i gefnogi gweithredu ein Swyddfa Docynnau a'n gwasanaethau darparu tocynnau.

### GOSTYNGIADAU
Ar gyfer rhai perfformiadau arbennig gallwn gynnig cyfradd ostyngedig i bobl dan 18 oed, pobl sydd wedi'u cofrestru'n anabl, deiliaid cerdyn Equity, aelodau HYNT, personél y lluoedd arfog, pobl hŷn (60+) a myfyrwyr. Efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos sut rydych chi'n cwrdd â'r meini prawf hynny.

### HYNT
Mae Theatr Brycheiniog yn falch o gefnogi Cynllun HYNT. Gall aelodau'r cynllun ddod â gofalwr am ddim i'r rhan fwyaf o berfformiadau (ac eithrio digwyddiadau llog). Cred HYNT yw bod celf a diwylliant ar gyfer pawb ac os oes gennych chi nam neu anghenion mynediad penodol, y dylai mynd i'w weld barhau i fod yn hawdd a hygyrch.

### PERFFORMIADAU HAMDDENOL
Addasiadau i'r sioe a gynlluniwyd yn benodol i unrhyw un a allai gael y profiad theatrig arferol yn ormod, neu a fyddai'n buddio o gael amgylchedd mwy hamddenol, yw'r rhain.
Yn ystod perfformiad hamddenol bydd Golau'r Tŷ'n para ynghyn ac ni ddefnyddir golau strôb a bydd synau uchel yn cael eu dileu neu leihau. Dyw gwneud sŵn yn ystod perfformiad ddim yn cael ei wgu arno ac mae rhyddid i'r gynulleidfa fynd i mewn ac allan yn ôl y galw. Rydyn ni hefyd yn darparu lle i ymneilltuo yn yr oriel os oes angen amser i ffwrdd o'r prif ddigwyddiad ar aelodau'r gynulleidfa.

Mae pob deunydd a ddefnyddiwyd i greu'r llawlyfr hwn wedi'u cydbwyso o ran carbon. Mae'r inc a ddefnyddir yn dod o ffynhonnell lysiau ac mae'r papur yn llwyr ailgylchadwy.

### MAE THEATRE B YN CROESAWU TEULUOEDD
Dyw theatrau ddim yn cael eu gweld yn draddodiadol fel mannau sy'n croesawu babis na phlant, ond yma yn Theatr Brycheiniog rydyn ni'n daer o blaid newid hynny. Mae ein rhaglen yn cynnwys sioeau i gynulleidfaoedd ifanc yn rheolaidd, ac rydyn ni'n gwneud ein gorau i sicrhau ein bod ni'n darparu'r lle delfrydol ble gall eich teulu deimlo'n gyfforddus a mwynhau theatr fyw. Rhestrir y sioeau hyn hefyd fel 'perfformiadau hamddenol', sy'n golygu ein bod ni nid yn unig yn 'llacio' rheolau arferol ein cynulleidfa, ond y gallwch chi 'ymlacio' a mwynhau'r perfformiad hefyd. Gall babis mewn breichiau dan 2 oed fynd am ddim.

### CAR PARKING
Dyma ein prisiau parcio ceir:
Hyd at 1 awr: £1.20
1-2 awr: £2
2-4 awr: £3.25
Mae'r peiriant yn y maes parcio'n derbyn cerdyn neu arian parod. Gallwch hefyd lawrlwytho ap RingGo i'ch ffôn a thalu â hwnnw. Rhif ein maes parcio yw 9129.

### HYGYRCHEDD
- Lleoedd i ddefnyddwyr cadair olwyn yn seddau'r llawr a'r llofft
- Mynediad ar y gwastad i bob ardal gy
- Lift i bob lefel
- Mynediad i doiledau ar bob llawr
- Croesewir cŵn mynediad
- Dolen sain bersonol / clustffonau
- Parcio ceir penodol